Bwletin Marchnad Organig Cymru

Rhif 104
Medi 2011

Gwell Cysylltiadau Busnes Organig
BOBL
Better Organic Business Links

Organic Market Wales Bulletin

No. 104
September 2011

Mynd yn syth at yr adran
Godro. Grawn. Cig a Da Byw. Ffrwythau a Llysiau. BOBL. Newyddion

Go straight to section
dairy. Cereals. Meat and Livestock. Fruit and Vegetables. BOBL. News

Digwyddiadau

Cynhadledd Canolfan Organig Cymru: Gwell Busnes

Gwella perfformiad busnes trwy edrych ar agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gynaliadwyedd ynghyd â diogelwch bwyd a chydweithrediad busnes.

27 Hydref 2011 9.00 - 16.00
Lleoliad: Llanelwedd

I archebu lle neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: organic@aber.ac.uk 01970 622248

Am wybodaeth am ddigwyddiadau eraill cliciwch yma

Yn ôl i'r brig

Events

OCW Conference - Organic: Better Business

Improving business performance by looking at economic, social and environmental aspects of sustainability, as well as food security and business cooperation

27 October 2011 9.00 - 16.00
Location: Llanelwedd

To book a place, or for more information please contact: organic@aber.ac.uk 01970 622248

For information on other events click here

Back to top

Y Farchnad Organig - Godro

Y Diweddaraf o'r Farchnad gan Huw Bowles, OMSCo

Pe bai godro organig yn y DU yn ynys, hawdd y gallem gredu efallai nad oedd pethau'n rhy ddrwg arnom yn yr hinsawdd economaidd filain sydd ohoni gyda gostyngiadau mwy sylweddol o lawer o ran gwerthiant mewn sectorau organig eraill yn y DU. Mae datblygu parhaus o ran Yeo Valley a Rachel's a'u cynhyrchion newydd wedi cadw eu nwyddau ar flaen meddyliau eu cwsmeriaid a dylai hyn roi hwb i'n ffydd nad rhywbeth amhosibl yw dychwelyd at dwf. Fodd bynnag, nid ynys ydyn ni ac mae'r codiadau ffyrnig mewn prisiau nwyddau ar draws y byd wedi trawsnewid contractau cyfansoddol nwyddau anorganig o waelod i frig y gynghrair gan roi i gynhyrchion sy'n seiliedig ar laswellt, rhai organig yn eu plith, ddewis go iawn. Rhaid i gynhyrchwyr ystyried beth yw'r rhagolygon yn y tymor hir i'r ddau cyn penderfynu a byddwch yn cael cymaint o farn wahanol â nifer y bobl rydych yn eu holi, gan gynnwys barn dadansoddwyr ar gyflogau uchel yn y ddinas. O safbwynt organig, i'r rheini sy'n ymrwymedig i gynhyrchu organig, y gobaith yw y bydd y twf mewn gwerthiant organig sydd wedi parhau ym mron pob gwlad er gwaetha'r dirwasgiad, yn dychwelyd i'r farchnad yn y DU a bydd sefyllfa dynnach o ran galw/cyflenwi yn cynyddu enillion net i'r cynhyrchwyr

Y diweddaraf o'r farchnad gan Roger Kerr, Calon Wen.

Organic Market - Dairy

Market update by Huw Bowles, OMSCo

If UK organic dairy was an island we may consider that we weren't doing too bad under the circumstances of tough economic times and much more significant reductions in sales in other organic sectors in the UK. On-going promotions and new product development by Yeo Valley and Rachel's have kept their products in the forefront of consumers' minds and should give us heart that a return to growth is not out of the question. We are not an island and the rampant increases in world commodity prices have transformed non-organic commodity constituent contracts from bottom of the table to top of the league and given grass based producers, including organic, a real alternative. Producers must consider what the longer term outlook for both is before they make a decision and you will get as many different opinions as people you ask, including from highly paid city analysts. From an organic perspective, for those who are committed to organic production, it is hoped that the growth in organic sales which has continued in almost every country despite the recession, will return to the UK market and a tighter demand/supply position will increase net returns to producers

Market update by Roger Kerr, Calonwen.

Ar hyn o bryd mae cyfeintiau ac ansawdd yn dal eu tir ar y fferm. Y prif bryderon erbyn y gaeaf eleni, fodd bynnag, yw'r cynnydd mewn costau porthiant a thanwydd. Rhaid i brisiau ar y fferm adlewyrchu'r codiadau hyn er mwyn sicrhau dilyniant yn y cyflenwad. Mae nifer o gynhyrchwyr organig wedi ymadael â chynhyrchu organig yng Nghymru'n barod ac mae'n hollbwysig nad yw'r duedd yn parhau yn wyneb y ffaith nad oes unrhyw ffermydd godro'n cael eu troi'n organig ar hyn o bryd.
roger@calonwen-cymru.com

At the moment volumes and quality are holding up on farm. The main concerns this Winter, however, is the increase in feed and energy costs. On farm prices need to reflect these increases to ensure continuity of supply. A number of organic producers have exited in Wales already and it is critical that this trend does not continue in the light no dairy farms currently conversion
roger@calonwen-cymru.com

Costau Kingshay – Organig

Canlyniadau misol	Mai 2011	Mehefin 2011	June 2010
Llaeth y fuwch (litrau/diwrnodau)	23.9	22.0	22.1
Braster menyn (%)	3.82	3.95	3.78
Protein (%)	3.26	3.26	3.25
Pris Llaeth Organig (cyl)	28.66	28.75	27.58
Dwysfwyd a ddefnyddir y litr (kg/litr)	0.17	0.20	0.18

Cyfartaledd Treigl anifeiliaid	Mehefin 2011	Mehefin2010
Llaeth y fuwch (l)	6,809	6,621
Braster menyn (%)	3.96	3.95
Protein (%)	3.25	3.24
Llaeth pris (cyl)	31.16	30.61
Dwysfwyd a ddefnyddir y pen (kg/litr)	0.26	0.26

http://www.dairyco.net/datum/on-farm-data/kingshay-dairy-costings/kingshay-dairy-costings-organic.aspx

Yn ôl i'r brig

Kingshay Dairy Costings – Organic

Monthly results	May 2011	June 2011	June 2010
Yield per cow in milk (litres/day)	23.9	22.0	22.1
Butterfat (%)	3.82	3.95	3.78
Protein (%)	3.26	3.26	3.25
Organic Milk Price (ppl)	28.66	28.75	27.58
Concentrate use per litre (kg/litre)	0.17	0.20	0.18

Annual Rolling Averages	June 2011	June 2010
Yield per cow (l)	6,809	6,621
Butterfat (%)	3.96	3.95
Protein (%)	3.25	3.24
Milk Price (ppl)	31.16	30.61
Concentrate use per litre (kg/litre)	0.26	0.26

http://www.dairyco.net/datum/on-farm-data/kingshay-dairy-costings/kingshay-dairy-costings-organic.aspx

Back to top

Y Farchnad Organig – Grawn

Y ddiweddaraf o'r farchnad gan Simon Tubbs, Norton Organics
Mae'r rhan fwyaf o'r cynhaeaf bellach wedi'i gwblhau er bod ardaloedd lle y ceir digon o waith i'r combein o hyd. Mae pwysau'n well na'r disgwyl o gofio amodau'r tywydd yn y gwanwyn, ond ychydig i lawr ar y cyfartaledd. Nid yw ansawdd i'w weld yn broblem.

Cnwd Newydd	Norton
Gwenith	230
Gwenith (melino)	250
Haidd	218
Haidd (melino)	230
Ceirch (melino)	251
Rhygwenith	220
Ffa	263
Pys	?

Organic Market – Cereals

Market update by Simon Tubbs Norton Organics
Most of the harvest is now complete, although there are areas where there is still plenty to be combined. Yields are better than expected, given weather conditions in the spring, but slightly down on average. Quality does not seem to be an issue.

New Crop	Norton
Wheat	230
Wheat (milling)	250
Barley	218
Barley (malting)	230
Oats (milling)	251
Triticale	220
Beans	263
Peas	?

O'r fferm yw'r holl brisiau uchod ac maent yn debygol o newid. Am wybodaeth, cysylltwch â Norton Organics ar

All the above prices are ex farm and are liable to change. For information please contact Norton Organics on 01787

01787 210966.
www.nortonorganic.co.uk/grain.html.

Gwybodaeth am brisiau organig
Mae Organic Grain Link yn brosiect i helpu ffermwyr âr organig i gynhyrchu a marchnata eu cnydau'n effeithiol ac yn broffidiol. Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi am dair blynedd gan DEFRA. Mae Organic Grain Link yn cynhyrchu cylchlythyr marchnata cnydau'n fisol. Os am dderbyn hwn, dylech danysgrifio ar: www.organicgrainlink.co.uk/regframe.html.

Gweler hefyd http://www.organiccentrewales.org.uk am fwy o wybodaeth am brisiau a'r farchnad

Yn ôl i'r brig

Y Farchnad Organig – Cig a Da Byw

Y Diweddaraf o'r Farchnad gan Nigel Elgar, Cynhyrchwyr y Graig

Mae'r galw am gig eidion dros ac o dan dri deg mis yn aros yn gryf a heb ei gyflenwi'n ddigonol gyda phrisiau'n parhau ar y lefel uchaf erioed.

Mae prisiau cig oen wedi llacio wrth i'r farchnad gonfensiynol ostwng. Fodd bynnag, nid yw'r llwythi o ŵyn organig wedi dod i'r fei. Mae'r farchnad organig yn parhau heb ei chyflenwi'n ddigonol o ganlyniad i ddiffyg hyder yng ngwerthiant pwysau ar y bachyn yn dilyn cyfnod lle'r oedd pwysau marw'n llusgo ar ôl prisiau byw'r farchnad gonfensiynol. Mae Cynhyrchwyr y Graig yn cydweithio ag un prosesydd i ailennyn hyder yn y farchnad a sicrhau bod premiymau organig yn aros yn ddeniadol yn enwedig yng nghyfnod y cyflenwad lleiaf. Mae rhagolygon ar gyfer cig oen organig yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a Mehefin i'w gweld yn ddeniadol i brynwyr stôr a byddant hyd yn oed yn fwy felly os bydd cytundeb â phroseswyr ynglŷn â lleiafswm prisiau a phremiwm organig. Mae Cynhyrchwyr y Graig yn chwilio am ŵyn stôr a gorffenwyr ar gyfer cyfnod y gaeaf. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01597 851704.

http://www.graigproducers.co.uk/

Arwerthiannau gwaredu praidd a buches organig Pwllpeiran

Yn y sêl yn Nolgellau 26 Awst, cafwyd prisiau rhagorol am wartheg duon Cymreig organig ADAS Pwllpeiran. Y pris uchaf oedd am fuwch a llo Cymreig du a aeth am £2,215 a chafwyd £1,360 ar gyfartaledd am heffrod a buchod â lloi.

Bydd diadell defaid Cymreig yn cael ei gwerthu wrth werthu Pwllpeiran ddydd Iau 6 Hydref 2011 yn ADAS Pwllpeiran, Cwmystwyth. Ar hyn o bryd mae'r ddiadell yn cynnwys:
20 o ŵyn beinw
30 o llydnod
70 o ŵyn 2-3 oed
Organig (penfrith a phenfrith x Texel)

210966.
www.nortonorganic.co.uk/grain.html.

Organic price information
Organic Grain Link is a project to help organic arable farmers produce and market their crops effectively and profitably. The project is supported for three years by DEFRA. Organic Grain Link produces a monthly crop marketing newsletter. To receive this please subscribe at: www.organicgrainlink.co.uk/regframe.html.

See http://www.organiccentrewales.org.uk for more price and market information

Back to top

Organic Market – Meat and Livestock

Market Update by Nigel Elgar, Graig Producers

Demand for organic beef, OTM and UTM, remains strong and undersupplied with prices remaining at a record high.

The organic lamb price has eased on the back of a dropping conventional market, however the expected flood of organic lambs has not happened. The organic market remains undersupplied as a result of a lack of confidence in dead weight selling following a period where organic dead weight prices trailed conventional live market prices. Graig Producers is working with one processor to reinstate confidence in the market and ensure organic premiums remain attractive, particularly in the period of least supply. Prospects for organic lamb in the period January to June are looking attractive to store buyers and will be even more so if there is agreement with processors on minimum pricing and organic premium. Graig producers is looking for store lambs and finishers for the winter period, for more information phone 01597 851704.

http://www.graigproducers.co.uk/

Disposal sales of the Pwllperian organic flock and herd

At the Dolgellau sale on 26 August, excellent prices were obtained for ADAS Pwllperian organic Welsh black cattle. Top price of £2,215 went for a Welsh Black cow and calf, with an average price of £1,360 for heifers and cows with calves.

The organic sheep flock will be sold at the Pwllperian disposal sale on Thursday 6 October 2011 at ADAS Pwllperian, Cwmystwyth. The flock currently comprises:
Organic (Speckle and Speckle X Texel)
20 ewe lambs
30 yearlings
70 2-5 yr olds

Bydd y ddiadell anorganig hefyd yn cael ei gwerthu yn y sêl ynghyd â rhai gwartheg duon Cymreig anorganig â lloi ynghyd â llawer o offer da byw.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch ADAS Pwllpeiran 01974 262 229

Yn ôl i'r brig

The non-organic flock will also be sold at this sale plus some non-organic pedigree Welsh Black cattle (heifers and cows with calves) and many items of livestock equipment.

For more information phone ADAS Pwllperian 01974 262 229

Back to top

Prisiau cig eidion: (2009-2011)

Beef price data: (2009-2011)



Organig gan Cynhyrchwyr y Graig cyfartaledd syml yw'r confensiynol o "Bris Pwysau Mawr Wythnosol Cyfartalog Gwledydd Prydain – Bustych" gan HCC."

Organic from Graig Producers, conventional is a simple average of HCC published "Average Weekly GB Deadweight Price – Steers"

Prisiau cig oen (209 – 2011)

Lamb price data (2009-2011)



Organig gan Cynhyrchwyr y Graig, cyfartaledd syml yw'r confensiynol o "Bris Pwysau Marw Wythnosol Cyfartalog Gwledydd Prydain - Ŵyn SQQ " gan HCC

Am fanylion llawn am fanteision aelodaeth, gan gynnwys arbedion gwych ar fewnbynnau, cysylltwch â Chynhyrchwyr y Graig ar 01597 8517811.
farmers@graigproducers.co.uk

Organic from Graig Producers, conventional is a simple average of HCC published "Average Weekly GB Deadweight Price - Lambs SQQ"

For full details of the advantages of membership, including great savings on inputs, contact Graig Producers on 01597 851811.
farmers@graigproducers.co.uk

Arwerthiannau Da Byw Organig

Bellach Ni fydd arwerthiant organig nesaf Livestock Sales y Trallwng yn cael ei gynnal tan 17 Hydref 2011. Bydd hwn ar gyfer gwartheg a defaid organig a'r rheini sy'n troi'n organig. Ffoniwch 01938 553438 am fanylion.

Mae Canolfan Da Byw Caerfyrddin yn cynnal arwerthiannau organig rheolaidd ar ddydd Gwener cyntaf y mis. Ffoniwch 01267 236268 neu Huw Evans ar 07976 328177 am fanylion neu e-bostiwch:
carmarthen@auctionmarts.com.

Organic Livestock Auctions

Welshpool Livestock Sales' next organic auction will now not be until October 17th 2011. This will be for organic and inconversion cattle and sheep. Call 01938 553438 for details.

Carmarthen Livestock Centre holds regular organic auctions on the first Friday of the month. Call 01267 236268 or Huw Evans on 07976 328177 for details or e-mail carmarthen@auctionmarts.com.

Gwybodaeth am brisiau organig

Gellir cael hyd i ragor o wybodaeth am brisiau da byw ar http://www.soilassociation.org.

Organic Price Information

More livestock price information can be found at http://www.soilassociation.org.

Yn ôl i'r brig

Back to top

Y Farchnad Organig – Ffwythau a Llysiau

Y diweddaraf o'r farchnad gan Suzanne Rees Organic Fresh Food Company

Mae amodau'r tywydd yn dal i fod yn boen i ni i gyd. Yma yng Nghymru, rydym yn dechrau dioddef oherwydd prinder glaw – ond yr ochr draw i'r bryniau ar y gororau, mae'r cnydau'n dechrau teimlo'r straen o ddifri heb fawr o ddŵr ers wythnosau. Nid yw planhigion brocoli wedi fframio ac nid ydynt yn para'n dda ar y silffoedd. Mae tatws yn cael eu codi o dan amodau sy'n debyg i storom o dywod. Rydym o'r diwedd wedi gadael mis Awst y tu ôl i

Organic Market – Fruit and Vegetables

Market update by Suzanne Rees, Organic Fresh Food Company

Weather conditions continue to dog us all. Here in Wales we are beginning to suffer from too much rain whereas just over the hills on the borders the crops are seriously beginning to feel the stress virtually no water for weeks. Broccoli plants have not put out frames and shelf life is not good. Potatoes are being lifted in conditions which resemble a sand storm. We are finally through August and pinning all our hopes on a buoyant sales drive in

ni ac mae pawb yn gobeithio am hwb go sionc i werthiant ym mis Medi.
Mae cennin Cymru wedi magu swmp yn dda ac ar hyn o bryd rydym o hyd yn rhydd rhag y gwyfyn cennin bondigrybwyll sydd wrthi'n difa cnydau yn ne-orllewin Lloegr. Mae swêds a phannas bellach yn barod, maent wedi ennill swmp yn eithaf da ond yn taro marchnad sy'n araf iawn ar hyn o bryd. Mae tomatos a llawer o'r cnydau salad yn y twnelau'n dod i ben. Mae'r lefelau golau isel rydym yn eu profi ar hyn o bryd yn golygu bod yr hen fwgan malltod yn codi ei ben. Rydym i gyd yn gobeithio am Haf Bach Mihangel ffantastig drwodd i fis Hydref gyda ein cwsmeriaid yn dechrau coginio unwaith eto a'r gwerthiant yn codi'n gyson yn ei ôl – wel, caiff pawb freuddwydio, glei!

Prisiau cyfredol Medi 2011 (o'r fferm)

Bresych	65c/yr un
Tatws Sir Benfro	40c/kg
Moron (wedi'u bwnsio)	80c y bwnsiaid
Sbigoglys	80c/pecyn
Dail Betys	80c y pecyn
Betys	90c y bwnsiaid
Corbwmpenni	120c/kg
Tomatos	150c/kg
Letys	65c yr un
Cêl	80c yr un
Shibwns	90c y bwnsiaid
Ffa Ffrengig	400c y kg
India-corn	50c yr un
Nionod	100c y
Pannas	120c y kg
Pwmpenni	150c yr un
Eirin	250c y kg
Afalau	180 y kg

www.organicfreshfoodcompany.co.uk

Yn ôl i'r brig

Newyddion

Am fanylion ynglŷn â storïau newyddion diweddar, cliciwch yma newyddion

Y Diweddaraf o BOBL

Cynhadledd Canolfan Organig Cymru
Dewch i gwrdd â'r tîm BOBL yng Nghynhadledd Canolfan Organig Cymru. Bydd y gynhadledd yn cynnal sesiynau llawn gan y Dirprwy Weinidog Alun Davies, cyfarwyddwr Cymdeithas y Pridd Helen Browning a Menter a Busnes a fydd yn rhoi trosolwg o ran cymorth Cyswllt Ffermio i'r sector organig yn y dyfodol. Byddwn yn cynnal gweithdai yn y bore a'r prynhawn a fydd yn trafod pynciau amserol gan gynnwys sut i aros mewn busnes, diogelu ein cyflenwad bwyd, gwerthu nwyddau organig, dewis eich mannau gwerthu, gwahanol fodelau ffermio a pholisïau a safbwyntiau'r UE.

September.
Welsh leeks have bulked up well and at the moment we are still free of the dreaded leaf moth which is devastating crops in the South West of England. Swedes and parsnips are now ready, they have bulked reasonably well but hitting a sluggish market at the moment. Tomatoes and many of the salad crops in the tunnels are coming to an end, the low light levels we are experiencing at the moment mean that blight is rearing its ugly head. We all hope for a glorious Indian summer through into October with customers starting to cook again and sales climbing steadily back up - well at least we can dream!

Current prices Sep 2011 (ex-farm)

Cabbages	65p/each
Pembrokeshire potatoes	40p/kg
Carrots (bunched)	80p/bunch
Spinach	80p/pack
Chard	80p/pack
Beetroot	90p/bunch
Courgettes	120p/kg
Tomatoes	150p/kg
Lettuce	65p/each
Kale	80p/each
Spring onions	90p/bunch
French beans	400p/kg
Sweetcorn	50p/each
Onions	100p/kg
Parsnips	120p/kg
Pumpkins	150p/kg
Plums	250p/kg
Apples	180/kg

www.organicfreshfoodcompany.co.uk

Back to top

News

For details on recent news stories please click here news

BOBL Update

OCW Conference
Come and meet the BOBL team at the OCW conference. The conference will host plenary sessions from the Deputy Minister Alun Davies, Soil Association director Helen Browning, and Menter a Busnes who will give an overview of future Farming Connect support to the organic sector. We'll be running workshops in the morning and afternoon covering topical subjects including how to stay in business, securing our food supply, selling organics, choosing your outlets, different farming models and EU poloicies and perspectives.

For more information or to book a place please contact:

Am fwy o wybodaeth neu os am archebu lle dylech gysylltu ag: organic@aber.ac.uk 01970 622248

Prosiect Cyfrifo Ôl Troed Cynaliadwyedd
Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi adroddiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau gwaith gan Weir-tscs ar gynaliadwyedd cadwyni cyflenwi. Bu'r prosiect yn gweithio â chwech ar hugain o fusnesau organig yng Nghymru gan ddarparu 'archwiliad iechyd' a fu'n edrych sut roeddent yn perfformio'n erbyn dangosyddion arferion gorau mewn cysylltiad â chynaliadwyedd a sut y gallent wella eu busnesau. Yna, bu deg o'r busnesau hyn yn cael ymgynghoriad manylach sydd wedi arwain at gynllun gweithredu cynaliadwyedd sydd wedi'i deilwra'n arbennig i'w hanghenion.

Bu'r archwiliad iechyd yn mesur perfformiad yn erbyn 23 o agweddau ar y meincnod rhagoriaeth cynaliadwyedd, gan gynnwys rheoli cynaliadwyedd, effeithlonrwydd adnoddau, effeithiolrwydd y gadwyn gyflenwi a darparu cyflenwyr a phrynu. Dangoswyd ystod eang o arferion gyda rhai busnesau'n gryf iawn o ran hybu eu cynhyrchion ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â lleihau gwastraff a deunyddiau pacio. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi nodi er bod busnesau'n gyffredinol yn canolbwyntio'n dda ar yr agwedd organig weithiau nid ydynt cystal o ran rheoli cynaliadwyedd cyffredinol ac effeithiau eraill ar yr amgylchedd, yn effeithiol.

Bydd yr adroddiad yn cael; ei gyhoeddi ar ein gwefan ond os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â'r tîm BOBL.

Y Diweddaraf am Arwyddion Tir Organig
Diolch i bob un ohonoch sydd wedi gofyn am arwyddion Tir Organig. Rydym wrthi o hyd yn eu cynhyrchu ac rydym yn gobeithio eu dosbarthu cyn pen dim.

I'r rhai ohonoch nad ydych eisoes yn gwybod am yr arwyddion, mae Canolfan Organig Cymru wedi lansio'r arwydd cyntaf yng Nghymru i roi gwybod i gerddwyr a thwristiaid pryd y mae'r tir o dan eu traed yn organig. Mae'r arwyddion 'Tir Organig' dwyieithog newydd ar gael yn ddi-dâl i ffermydd organig ardystiedig yng Nghymru. Os hoffech archebu rai o'r arwyddion, cysylltwch â'r tîm BOBL.

Gweithdai Cyfryngau Cymdeithasol
Mae defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol megis Gweplyfr a Thrydar yn tyfu bob wythnos ac mae busnesau sydd wedi dal yn ôl rhag ymwneud â nhw yn colli peth wmbredd! Llwyfannau di-dâl yw gwefannau cyfryngau cymdeithasol sy'n hawdd eu cyrchu i rywun sydd â mynediad i'r rhyngrwyd. Os ydych yn newydd i fyd rhwydweithio cymdeithasol ac os ydych am weld sut mae busnesau fel eich un chi'n defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i hyrwyddo a datblygu eu busnesau yna cysylltwch â ni a gallwn redeg gweithdy yn eich ardal. Yn ogystal â'r gweithdy rydym hefyd yn datblygu pecyn Cyflwyniad i Gyfryngau Cymdeithasol y byddwn yn ei anfon at fusnesau organig yng Nghymru cyn bo hir.

organic@aber.ac.uk 01970 622248

Sustainability foot-printing project
We'll soon be publishing a report based on the findings of the Weir-tscs supply chain sustainability work. The project worked with twenty six organic businesses in Wales, providing a "healthcheck" process which looked at how they performed against indicators of best sustainability practice and how they could improve their businesses. Ten of these businesses then had a more detailed consultation which has resulted in their own tailored sustainability action plan.

The healthcheck process measured performance against 23 aspects of the sustainability excellence benchmark, including sustainability management, resource efficiency, supply chain effectiveness, and sourcing and purchasing. There was a wide range of practice exhibited, with some businesses being particularly strong at promoting their products and in engaging stakeholders, as well as reducing waste and packaging. However, this work has identified that although businesses generally focus well on organics, sometimes a less focused approach is made with regards to managing overall sustainability and effectively managing other environmental impacts.

The report will be published on our website, but if you'd like some more information please contact the BOBL team.

Update on Tir Organig Signs
Thank you to all those who have requested Tir Organig signs. We are still in the process of getting them manufactured and we hope to send them out to you shortly.

For those who don't already know about the signs, Organic Centre Wales has launched the first sign in Wales to let walkers and tourists know when the land under their feet is organic. The new bi-lingual 'Tir Organig' signs are available free to certified organic farms in Wales. If you would like to order some signs then please contact the BOBL team.

Social Media Workshops
The use of social media sites like Facebook and Twitter is growing week by week and businesses that have put off getting involved are missing a trick! Social media sites are a free platform that is easily accessible to anyone with internet access. If you are new to the world of social networking and want to see how businesses like yours are using social networking sites to promote and develop their businesses then get in touch, we can run an introduction workshop in your area. In addition to workshops we are also developing an Introduction to Social Media pack, which we will be sending out to organic businesses in Wales shortly.

Follow Organic Centre Wales on Twitter or like us on Facebook

Dilynwch Ganolfan Organig Cymru ar Trydar neu ein hoffi ar Weplyfr

Digwyddiadau hyfforddi i'r dyfodol – Hyfforddiant Cyfryngau a Moeseg Fusnes

Byddwn yn cynnwys mwy o'n gweithdai hyfforddiant cyfryngau a gweithdai moeseg fusnes llwyddiannus yn y dyfodol. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'r rhain yna cysylltwch â'r tîm BOBL. Byddwn yn cyhoeddi dyddiadau'r digwyddiadau hyn yn y bwletin nesaf.

Future training events – Media training and Business Ethics

We will be running more of our successful media training workshops and business ethics workshops in the Autumn. If you are interetsted in attending one of these then please contact the BOBL team. We will publish dates of these events in the next bulletin.

Prosiect BOBL

Bwriad y prosiect BOBL yw cynorthwyo'r cynhyrchydd cynradd yng Nghymru a meithrin marchnad ar gyfer cynnyrch organig Cymreig mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y prosiect yn datblygu marchnadoedd hen a newydd i gynnyrch organig gan sbarduno arloesedd ar bob lefel yn y gadwyn gyflenwi ar yr un pryd. Cyswllt: Dafydd Owen 01970 622953 www.organiccentrewales.org.uk.

Contact: bobl-project@aber.ac.uk 01970 622248

Yn ôl i'r brig

The BOBL Project

The BOBL project is designed to support the primary producer in Wales and grow the market for Welsh organic produce in a sustainable way. The project will develop new, emerging and existing markets for organic produce whilst driving innovation, at all levels, within the supply chain. www.organiccentrewales.org.uk.

Contact: bobl-project@aber.ac.uk 01970 622248

Back to top

Y Farchnad Organig – Y Farchnadfa

Gweler yr hysbysebion ar ein gwefan newydd: http://www.organiccentrewales.org.uk neu cliciwch fan yma.

Gweler hefyd:

www.soilassociation.org/organicmarketplace a www.organicfarmers.org.uk/classifieds/index.php

Rhoddodd Ail Gynllun Gweithredu Organig Cymru bwyslais arbennig ar y swyddogaeth bwysig a gyflawnir gan y grwpiau cynhyrchu. Mae Grŵp Strategaeth Organig a Chanolfan Organig Cymru'n cynnig eu cefnogaeth gan argymell y dylai cynhyrchwyr bob amser ystyried y budd posibl a gynigir gan grwpiau marchnata cynhyrchwyr yn enwedig wrth ymdrin ag adwerthwyr lluosog.

Hwn oedd y cylchlythyr gwybodaeth farchnata misol gan Ganolfan Organig Cymru. Llwyfan yw'r e-fwletin hwn ar gyfer rhannu gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad a chynhyrchu rhwng busnesau organig yng Nghymru. Rydym yn gobeithio eich bod yn ei gael yn fuddiol a chroesawn unrhyw adborth, eitemau newyddion, neu hysbysebion ar gyfer y rhifyn nesaf.

Organic Market - Marketplace

Please see the Adverts page on our new website: www.organiccentrewales.org.uk or click here.

See also:

www.soilassociation.org/organicmarketplace and www.organicfarmers.org.uk/classifieds/index.php

The second Welsh Organic Action Plan placed special emphasis on the important role played by producer groups. The Organic Strategy Group and Organic Centre Wales offer their support and recommend that producers should always consider the potential benefits offered by producer marketing groups, particularly when dealing with multiple retailers.

This was the monthly market intelligence newsletter from Organic Centre Wales. This e-bulletin is a platform for sharing information on market trends and production between organic businesses in Wales. We hope that you find it useful and we welcome any feedback, news items, or advertisements for the next issue

Adborth

NEWYDDION Anfonwch eich eitemau newyddion, adborth a hysbysebion at david.frost@adas.co.uk.
Er bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth yn y bwletin yma, ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail unrhyw un o'u cyhoeddiadau

Feedback

NEWS ITEMS Please send your news items, feedback and advertisements to david.frost@adas.co.uk.
While every effort is made to ensure the accuracy of the information in this bulletin, Organic Centre Wales and its partners cannot accept responsibility for the consequences of any actions taken on the basis of any of its publications.

Yn ôl i'r brig

I danysgrifio i'r bwletin hwn neu i e-fwletin Cymru Organig sy'n ymddangos ar ddechrau pob mis yn cynnwys y newyddion organig diweddaraf yng Nghymru, y DU a thu hwnt, cliciwch yma. I ddad-tansygrifio odo@aber.ac.uk gan gynnwys 'dad-tanysgrifio' fel pwnc.

Back to top

To subscribe to this bulletin or to the Organic Wales e-bulletin, which appears at the beginning of each month featuring the latest organic news in Wales, the UK and beyond, click here. To unsubscribe from this bulletin please email odo@aber.ac.uk and include 'unsubscribe' in the subject.